



Llywodraeth Cymru
Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Ymateb
Interim

Cydgrynhoi ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth

Cydgrynhoi Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau
Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu
Cyffredinol a Ganiateir) 1995

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Y Camau Nesaf	4
3. Ymatebion	5
4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad	6
Seilwaith Trydanu Cerbydau Trydan.....	6
Telathrebu	8
Ynni Solar Annomestig	16

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad Cydgrynhoi ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth ar 31 Mai ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 28 Medi 2018. Roedd yn ceisio barn ynglŷn â chynigion i gydgrynhoi a gwneud addasiadau penodol i ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref.
- 1.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (UCO) yn dileu'r angen am ganiatâd cynllunio ar gyfer llawer o newidiadau defnydd sylweddol pan fo effeithiau cynllunio'r defnydd newydd yn debyg. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer llawer o waith datblygu bach sydd ag effaith isel.
- 1.3 Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig ystod o newidiadau i'r UCO a oedd yn deillio o argymhellion a wnaed mewn adolygiad o'r offeryn statudol. Deilliodd newidiadau arfaethedig i'r GPDO o ymrwymadau polisi i ehangu darpariaeth ynni adnewyddadwy a thelathrebu. Gofynnwyd 64 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol a ffurflen ar-lein yn cael eu darparu i'w gwneud yn rhwydd ymateb.
- 1.4 Mae'r ddau offeryn statudol yn fawr a bydd felly'n cymryd peth amser i baratoi testun wedi'i gydgrynhoi. Yn y cyfamser rydym am i'r budd a gynigir gan hawliau datblygu a ganiateir estynedig ar gyfer darpariaeth ynni adnewyddadwy a thelathrebu fod ar gael cyn gynted â phosibl. Rydym felly'n cynnig gwneud gorchymyn diwygio interim a fydd yn darparu ar gyfer ynni adnewyddadwy a thelathrebu, tra bo fersiynau wedi'u cydgrynhoi o'r gorchymynion yn cael eu paratoi. Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb interim o'r ymatebion i'r cwestiynau canlynol:
 - C.26: A ydych yn cytuno â'r cynigion datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith trydanu cerbydau trydan?
 - C.34: A ydych yn cytuno â'r cynnydd mewn uchder a gynigir ar gyfer gosod, addasu neu ddisodli mast ar dir a ddiogelir a thir nas diogelir?
 - C.35: A ydych yn cytuno â'r newid i led mastiau a ddisgrifir mewn cysylltiad ag addasu neu ddisodli mastiau?
 - C.42: A ydych yn cytuno y dylid gwneud y cymal a ychwanegwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 sy'n ymwneud â gwasanaethau band eang, yn barhaol, gan ddileu'r gofyniad i gyflwyno cymeradwyaeth ymlaen llaw?
 - C.43: Os ydw yw eich ateb i C42, a ddylid cadw'r gofyniad am hysbysiad?

- C.48: A ydych yn cytuno â'r egwyddor o sefydlu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer Solar Ffotofoltäig a Thermal heb gymhwyso trothwy ynni penodol?
- C.49: A ydych yn cytuno bod y 'datblygu nas caniateir' a restrir, (a) i (f), yn ddigonol i reoli effeithiau posibl datblygu a ganiateir o ran solar ffotofoltäig a solar thermal?
- C.50: A ydych yn cytuno bod yr amodau presennol yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau posibl datblygu a ganiateir o ran solar ffotofoltäig neu solar thermal?
- C.51: A ydych yn cytuno na ddylid newid maint datblygiadau paneli solar ar y ddaear (ac felly eu hallbwn ynni) o fewn cwrttil adeilad annomestig?
- C.52: A ydych yn cytuno bod y 'datblygu nas caniateir' a restrir uchod, (a) i (c), yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau posibl datblygiadau paneli solar ffotofoltäig neu baneli solar thermal ar y ddaear o fewn cwrttil adeilad annomestig?
- C.53: A ydych yn cytuno nad oes angen unrhyw newid i'r amodau ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltäig neu thermal annomestig ar y ddaear?
- C.54: A ydych yn cytuno â'n hymagwedd o beidio â chynnwys cyfyngiadau ar ddatblygiadau solar ffotofoltäig neu solar thermal ar adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig neu ardaloedd tirlun eraill? Os nad ydych, pa gyfyngiadau yr hoffech eu gweld a fyddai'n dal i wneud y mwyaf o'r cyfleodd i ddefnyddio'r dechnoleg ar yr adeiladau / safleoedd hyn?


1.5 Mae copïau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar gais.

2. Y Camau Nesaf

- 2.1 Bydd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019 yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Chwefror gan gyflwyno darpariaethau sy'n ymwneud â phwyntiau trydanu cerbydau trydan, newidiadau i Ran 24 sy'n ymwneud â chyfarpar band eang gwifren sefydlog, uchder mastiau telathrebu, a newidiadau i Ran 43 sy'n ymwneud â phaneli solar ffotofoltäig annomestig.
- 2.2 Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 2.3 Bydd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau sy'n weddill o fewn yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

3. Ymatebion


3.1 Ar y cyfan, cafwyd 148 o ymatebion mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli nifer o wahanol grwpiau buddiant, yr oedd ychydig dros eu hanner yn aelodau unigol o'r cyhoedd. Gellir categorïddio'r ymatebion yn llawn fel a ganlyn:



4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Seilwaith Trydanu Cerbydau Trydan

C.26 A ydych yn cytuno â'r cynigion datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith trydanu cerbydau trydan?




- 4.1 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (88% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith trydanu cerbydau trydan.
- 4.2 Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint y sylw canlynol: "the scale and size of wall mounted outlet for charging electric vehicles and the size and scale of upstands required to mount outlets seem proportionate and acceptable to limit visual impact whilst supporting positive uptake of such electric vehicles". Ategwyd y farn hon gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill, gan gynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.
- 4.3 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno o'r farn bod cwmpas arfaethedig yr hawliau datblygu a ganiateir yn rhy eang ac y dylent fod yn berthnasol i feysydd parcio ceir oddi ar y ffordd yn unig.
- 4.4 Fe wnaeth nifer fach o ymatebwyr, gan gynnwys Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a CADW, amodi eu hymateb trwy ofyn am reolaethau ar osod cyfarpar mewn ardaloedd a warchodir ac ar/o fewn cwrtail adeiladau rhestredig. Mynegwyd pryderon fod seilwaith trydanu cerbydau trydan yn gallu cael effaith niweidiol ar gymeriad traddodiadol ardaloedd hanesyddol ac adeiladau rhestredig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.5 O ran y sylwadau gan rai ymatebwyr ynghylch effeithiau posibl ar ardaloedd cadwraeth, ceir cydbwysedd anodd i'w daro rhwng yr angen i warchod a gwella ardaloedd â chymeriad arbennig diffiniedig a'r angen i ddarparu seilwaith newydd i sbarduno twf cynaliadwy, datgarboneiddio'r rhwydwaith trafndiaeth yng Nghymru a brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol rhoi ein holl ysgogiadau polisi yn y Llywodraeth ar waith i sicrhau bod gennym y seilwaith ategol angenrheidiol i gyrraedd y nod hwn. Bydd cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir yn cyflymu'r broses o greu rhwydwaith ledled Cymru gyfan o bwyntiau trydanu cerbydau trydan – mewn cartrefi, gweithleoedd a chyrchfannau allweddol, megis archfarchnadoedd, canolfannau manwerthu a masnachol a chyfleusterau hamdden. Er mwyn sicrhau bod y seilwaith yn gallu cael ei gyflwyno ledled Cymru gyfan, a bod manteision teithio mewn modd wedi'i ddatgarboneiddio yn gallu cael eu profi gan bawb, mae'n hanfodol bod unrhyw gyfyngiadau ar gwmpas hawliau datblygu a ganiateir mor fach â phosibl.
- 4.6 Er gwaethaf hyn, lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) yn ystyried bod amgylchiadau lle mae gan effaith datblygu o'r fath y potensial i fod yn sylweddol niweidiol, gallant osod Cyfarwyddyd Erthygl 4 i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl ar gyfer yr ardal benodol, gan ei gwneud yn bosibl cynnal asesiad pellach trwy gyflwyno cais cynllunio. Ystyrir bod y dull hwn sydd wedi'i dargedu yn cynyddu i'r eithaf fanteision hawliau datblygu a ganiateir, a fyddai fel arall yn cael eu colli trwy waharddiad cyffredinol.
- 4.7 Mewn perthynas â datblygu sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig, bydd cais am ganiatâd adeilad rhestredig (LBC) yn ofynnol cyn gosod. Mae'r broses caniatâd adeilad rhestredig yn galluogi ACLIau i werthuso unrhyw effaith niweidiol ar gymeriad arbennig neu leoliad yr adeilad rhestredig a phenderfynu a all y datblygiad fynd rhagddo fel a gynigiwyd. Felly, ni ystyrir bod angen hepgor adeiladau rhestredig o'r hawliau datblygu a ganiateir arfaethedig.

Telathrebu

C.34 A ydych yn cytuno â'r cynnydd mewn uchder a gynigir ar gyfer gosod, addasu neu ddisodli mast ar dir a ddiogelir a thir nas diogelir?



- 4.8 Roedd 37 o ymatebion i gwestiwn 34. Roedd y farn ynglŷn â chynnyddu uchder mastiau neu beidio'n rhanedig; roedd 43% o'r ymatebion yn cytuno â'r cynigion a 40% yn anghytuno. Nid oedd 16% yn cytuno nac yn anghytuno.
- 4.9 Fe ymatebodd pymtheg o Awdurdodau Cynllunio Lleol (cafodd y 3 Pharc Cenedlaethol eu cynrychioli mewn un ymateb ar y cyd), yr oedd saith ohonynt yn cytuno, saith ohonynt yn anghytuno â'r cynigion ac un heb fynegi barn y naill ffordd na'r llall.
- 4.10 Roedd y pryder mwyaf cyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr yn ymwneud ag effaith weledol. Dywedwyd y gallai cynnydd mewn uchder fod yn niweidiol i'r amgylchedd, yn enwedig mewn ardaloedd a warchodir megis Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod ardaloedd eraill y tu allan i leoliadau sensitif mewn perygl pe bai mastiau uwch yn cael eu caniatáu. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr adlewyrchu'r pryderon hyn gan gynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol
- 4.11 Roedd ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i ategu newidiadau mewn uchder. Dywedodd un ymatebydd nad oedd unrhyw dystiolaeth sylweddol bod ceisiadau cynllunio uwchlaw 15m yn cael eu gwrthod yn afresymol. Dywedodd un arall nad oedd unrhyw dystiolaeth bod mesurau i ddiogelu tirweddau wedi'u dynodi'n rhwystr i osod seilwaith ffonau symudol. Dywedodd rhai y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ddarparu cymhorthdal ar gyfer mastiau mewn ardaloedd i roi anogaeth i sefydlu darpariaeth lle'r oedd hyfywedd yn broblem.


- 4.12 Roedd un cynrychiolydd o fyd diwydiant yn anghytuno â'r cynigion am nad oedd y newidiadau'n mynd yn ddigon pell yn eu tyb hwy. Hefyd, fe wnaed y pwynt nad yw'r newidiadau'n caniatáu disodli ac addasu mastiau, nad ydynt yn uwch na'r uchder o 15m neu 20m (gan ddibynnu a ydynt yn cael eu cynnig ar dir a ddiogelir neu nas diogelir) a ganiateid yn flaenorol, heb hysbysu ymlaen llaw. Roedd ymatebwyr o'r farn bod hyn yn anghyson ag ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.13 Diben y cynnig i gynyddu uchder mastiau yw rhoi cymorth i osod seilwaith symudol a gwella darpariaeth symudol i helpu i ddarparu gwasanaethau gwell ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau ledled Cymru. Mae'r nod hwn yn adlewyrchu'r dyheadau yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru, sy'n ystyried bod seilwaith digidol yn ffactor galluogi allweddol i gyflawni twf a llesiant. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Ffonau Symudol yn helpu i roi'r dyheadau hyn ar waith gan gydnabod rôl y system gynllunio i sicrhau darpariaeth well o ran ffonau symudol ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod y system gynllunio'n ymateb yn gadarnhaol i ofynion datblygu seilwaith telathrebu modern, yn enwedig o ystyried yr heriau a achosir gan dopograffi a dosbarthiad poblogaeth Cymru. Mae defnyddio hawliau datblygu a ganiateir yn offeryn pwysig o ran helpu i gyflawni'r amcanion hyn.
- 4.14 O ran pryderon ynghylch effaith weledol cynyddu uchder mastiau, barn Llywodraeth Cymru yw bod y cynnydd arfaethedig yn uchder mastiau'n ymateb cymesur i'r angen am well defnydd, darpariaeth a gwasanaeth ledled Cymru. Er bod problemau o ran darpariaeth symudol yn bodoli mewn lleoliadau trefol a gwledig, mae hyn yn arbennig o wir mewn lleoliadau gwledig, lle mae ardaloedd sylweddol heb ddarpariaeth yn dal i fodoli.
- 4.15 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cydbwysedd i'w daro rhwng yr angen i sicrhau gwell darpariaeth a chysylltedd telathrebu a'r angen i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Heblaw am amodau penodol sy'n ymwneud ag addasu a disodli mastiau (gweler isod), mae'n ofynnol dilyn gweithdrefnau hysbysu rhag blaen ar gyfer cynyddu uchder mastiau neu osod mastiau newydd ar y tir, lle gall y dyluniad a'r lleoliad gael eu hasesu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a lle gellir cynnal unrhyw ymgynghoriadau angenrheidiol. Mae hysbysu rhag blaen yn weithdrefn lle mae'n rhaid i ddatblygwyr hysbysu'r awdurdod ynghylch cynigion cyn y gall arfer hawliau datblygu a ganiateir. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ystyried a yw'n ofynnol asesu effeithiau. Os felly, gall yr Awdurdod ofyn am wybodaeth bellach i fod yn sail wedyn i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r dyluniad a'r lleoliad.

- 4.16 Mae'r cynyddiadau arfaethedig yn uchder mastiau'n debyg i newidiadau a wnaed eisoes yn Lloegr a'r Alban a byddant yn helpu i ddarparu dull mwy cyson o ddefnyddio ar gyfer y diwydiant ffonau symudol.
- 4.17 O ran tystiolaeth i ategu cynyddiadau mewn uchder mae'r ddogfen ymchwil cynllunio Cynllunio ar gyfer Telathrebu Symudol: Asesiad o Hawliau Datblygu a Ganiateir yng Nghymru (Ionawr 2018) yn nodi nifer o ffyrdd y gall mastiau talach ddwyn manteision i'r ddarpariaeth a'r gwasanaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig. Gall mastiau talach godi uwchlaw annibendod topgraffig, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, gan roi gwell darpariaeth a gwasanaeth i boblogaethau lleol. Mewn ardaloedd gwledig mae anawsterau o ran cysylltu safleoedd â rhwydweithiau, a gall mastiau talach helpu hefyd i wella cysylltedd 'llinell gweledd'. Mae hyfywedd masnachol mastiau mewn lleoliadau gwledig yn bwysig a gallant fod yn ddrutach i'w hadeiladu a'u gweithredu o'i gymharu â datblygiadau trefol. Gall unrhyw fanteision o ran darparu gwasanaethau symudol a wireddir trwy gynyddu uchder mastiau mewn lleoliadau gwledig helpu i ategu hyfywedd mast.
- 4.18 O ran pryder y diwydiant ffonau symudol nad yw cynigion yr ymgynghoriad yn caniatáu addasu neu ddisodli rhai mastiau heb hysbysu rhag blaen, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud newid sy'n caniatáu addasu neu ddisodli mastiau heb hysbysu rhag blaen dan amgylchiadau penodol. Mae'r newid hwn yn berthnasol pan nad yw'r addasiad i'r mast neu'r mast sy'n disodli mast arall yn uwch nag uchder y mast blaenorol neu'r uchder a ganiateir fel a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) Tachwedd 2014. Mae hyn yn unol â newidiadau a gyflwynwyd i hawliau datblygu a ganiateir yn Lloegr yn ystod 2016. Byddai unrhyw gynnydd rhwng yr uchder presennol a ganiateir a'r uchder arfaethedig a ganiateir yn golygu ei bod yn ofynnol dilyn y weithdrefn hysbysu rhag blaen.

C.35 A ydych yn cytuno â'r newid i led mastiau a ddisgrifir mewn cysylltiad ag addasu neu ddisodli mastiau?



- 4.19 Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 35. Rhoddwyd cefnogaeth gref i'r cynnig i newid y diffiniad o led mastiau, gyda 73% o blaid a 23% yn erbyn.
- 4.20 Cafwyd ymatebion gan dri ar ddeg o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ychwanegol at yr ymateb ar y cyd gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. O'r holl ymatebwyr, roedd 11 yn cytuno â'r cynnig a 4 yn anghytuno (gan gynnwys yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Roedd ymatebwyr eraill nad oeddent yn cytuno â'r cynnig yn cynnwys yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Er ei fod yn cefnogi'r newid mewn egwyddor, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn na ddylid cynnwys Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd, felly am y rheswm hwn maent wedi cael eu cofnodi fel ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.
- 4.21 Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno, gan dderbyn bod peth datblygu'n angenrheidiol ond fe ofynnion nhw am hybu'r arfer o rannu safleoedd yn fwy, i leihau nifer y mastiau i leiafswm effeithiol.
- 4.22 Mynegwyd pryderon y gallai newidiadau i led mastiau fod yn niweidiol i warchod a gwella harddwch naturiol mewn tirweddau dynodedig. Gallai cynnydd mewn lled effeithio ar gymeriad gweledol ardaloedd, a gallai ddigwydd ar y cyd a chynnydd yn uchder mastiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.23 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno â'r newid arfaethedig yn lled mastiau. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn anghytuno'n pryderu ynghylch effaith gweledol yn bennaf, yn enwedig mewn ardaloedd gwarchodedig. Mae newidiadau mewn lled yn ymwneud â mastiau presennol ac felly mae egwyddor eu lleoli


eisoes wedi'i sefydlu. Mae'r darpariaethau presennol ar hyn o bryd yn caniatáu cynnydd nad yw'n fwy nag un rhan o dair o'r mast presennol. Mae'r newid arfaethedig yn caniatáu cynnydd o un fetr neu un ran o dair o'r mast gwreiddiol, pa un bynnag sydd fwyaf. Bydd hyn yn berthnasol i dir a ddiogelir (ond nid mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd), gweler isod) a thir nas diogelir ac mae wedi'i fwriadu i'w gwneud yn bosibl darparu ymateb mwy hyblyg i anghenion telathrebu ledled Cymru.

4.24 Mae rhannau gwledig o Gymru yn aml yn profi heriau penodol o ran darparu gwasanaeth a darpariaeth telathrebu symudol. Mae cynyddu lled yn cynnig nifer o fanteision megis caniatáu offer a chapasiti ychwanegol ar fastiau, lleihau'r angen am seilwaith ychwanegol trwy roi anogaeth i rannu, a helpu i sefydlogi mastiau sydd wedi cynyddu mewn uchder.

4.25 O ran rhannu mastiau, mae hyn eisoes yn cael ei hybu ym Mholisi Cynllunio Cymru.

4.26 Er mai'r bwriad mewn ardaloedd gwarchoddedig yw caniatáu'r un cynnydd yn lled mastiau, bydd dull gwahanol yn cael ei ddefnyddio mewn SoDdGAoedd. Cynigir cyfyngu ar addasu neu ddisodli fel nad yw'n fwy na lled presennol y mast, oherwydd sensitifrwydd ecolegol safleoedd o'r fath.

C.42 A ydych yn cytuno y dylid gwneud y cymal a ychwanegwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 sy'n ymwneud â gwasanaethau band eang, yn barhaol, gan ddileu'r gofyniad i gyflwyno cymeradwyaeth ymlaen llaw?



- 4.27 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (75% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y gofyniad i gael cymeradwyaeth rhag blaen mewn perthynas â gosod cyfarpar band eang gwifren sefydlog mewn tir erthygl 1(5).
- 4.28 Mae'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys 12 Awdurdod Cynllunio Lleol, 4 Cyngor Tref a Chymuned, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ac Openreach.
- 4.29 Mae'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn cynnwys 5 Awdurdod Cynllunio Lleol, Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol ac Arqiva.
- 4.30 O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd y prif reswm yn ymwneud â'r angen i gadw mwy o reolaeth ar ddatblygu mewn tir Erthygl 1(5) i atal datblygu amhriodol a allai effeithio ar nodweddion arbennig lleoliadau sensitif, megis parciau cenedlaethol ac ardaloedd cadwraeth.
- 4.31 Fe wnaeth Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y sylw canlynol: "the temporary relaxation of fixed line broadband safeguards for Article 1(5) land was an exceptional action to facilitate the roll-out of Superfast Cymru, after which it was agreed that the prior notification requirement to protect these sensitive areas would be reinstated. The need to protect such areas has not diminished and the prior notification requirements are not onerous for operators".

- 4.32 Roedd yr Ymgyrch dros Barciau Gwledig hefyd o'r farn bod cael gwared ar y broses cymeradwyaeth rhag blaen yn gosod cynsail beryglus ac y byddai'n arwain at bwysau cynyddol i lacio rheoliadau cynllunio eraill mewn tirweddau gwarchoddedig.
- 4.33 Roedd Arqiva yn gwrthwynebu hefyd am eu bod hwy'n ystyried bod yr Hawliau Datblygu a Ganiateir yn wrthgystadleuol ac yn gosod mantais annheg dros weithredwyr diwifr o ran gosod gwasanaethau band eang cyflym ar gyfer rhannau pellennig o Gymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru


- 4.34 Darparodd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014, mewn cysylltiad â thir erthygl 1(5), ar gyfer codi, gosod, neu newid polion telegraff, cabinetau neu wifrau ar gyfer gwasanaethau band eang gwifren sefydlog heb fod angen cymeradwyaeth flaenorol gan Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 4.35 Fe wnaed y newid hwn i ategu a chyd-fynd â'r fenter Cyflymu Cymru gan Lywodraeth Cymru i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy yn y rhannau hynny o Gymru nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd, a oedd wedi'i rhaglenni fel ei bod yn dod i ben ym mis Mai 2018. Fe'i cyflwynwyd i symleiddio a chyflymu'r broses gynllunio, gan leihau oedi a rhoi anogaeth i osod seilwaith band eang trwy'r fenter benodol hon ac yn fwy cyffredinol.
- 4.36 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda gweithredwyr i estyn y ddarpariaeth ymhellach ac adeiladu ar lwyddiant Cyflymu Cymru. Mae darparwyr band eang yn parhau i weithredu'n fasnachol ledled Cymru a bydd yr angen am gabinetau stryd a chyfarpar arall cysylltiedig yn parhau i fod yn hanfodol i helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.
- 4.37 Mae darparu band eang dibynadwy cyflym yn y rhannau hynny o Gymru nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd yn dal i fod yn rhaglen sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn ymrwymiad gan y Llywodraeth, fel a nodir yn Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol.
- 4.38 Er bod effeithiau cabinetau ar y dirwedd yn cael eu cydnabod, mae cydbwysedd anodd i'w daro rhwng yr angen i ddarparu mwy o gysylltedd ar gyfer perchnogion tai sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig (lle mae darpariaeth telathrebu a band eang wedi bod yn llai fel rheol nag mewn ardaloedd llai gwledig) a'r angen i sicrhau bod buddiannau'r amgylchedd ehangach yn cael eu gwarchod. Mae'n anorod bod cydbwysedd anodd i'w daro rhwng y buddiannau hyn ac nid yw'n bosibl bodloni buddiannau pob parti wrth greu caniatâd cynllunio cenedlaethol.
- 4.39 Bydd parhau â'r ddarpariaeth hon o gymorth i wneud cynnydd tuag at ddarpariaeth band eang gyflawn yng Nghymru, a fydd yn ei dro'n helpu i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a

ffyniannus, ac yn galluogi mynediad gwell at wasanaethau.

4.40 Bydd cadw'r gofyniad am hysbysiad (gweler cwestiwn 43) a'r amodau presennol sy'n ymwneud â graddfa ac ymddangosiad yn lleihau'r risgiau o effeithiau niweidiol. Hefyd, mae'r broses Erthygl 4 yn dal i fod yn offeryn sydd ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol os byddent yn ystyried bod effaith datblygu o'r fath yn golygu ei bod yn ofynnol cynnal asesiad pellach trwy gyflwyno cais cynllunio. Fel gyda'r cynigion ar gyfer pwyntiau trydanu cerbydau trydan, ystyrir bod dull wedi'i dargedu'n cynyddu i'r eithaf fanteision hawliau datblygu a ganiateir, a fyddai fel arall yn cael eu colli trwy waharddiad cyffredinol.

4.41 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau ynghylch cystadleuaeth annheg. Mae Rhan 24 o'r GPDO hefyd yn rhoi caniatâd ar gyfer mathau amrywiol o ddatblygu ar gyfer telathrebu gan roi cyfle cyfartal i ddarparwyr band eang symudol estyn eu darpariaeth.

C.43 Os ydw yw eich ateb i C42, a ddylid cadw'r gofyniad am hysbysiad?



4.42 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi cadw'r hysbysiad sy'n ofynnol yn ôl yr amodau ar gyfer datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â seilwaith band eang gwifren sefydlog. Roedd rhaniad hanner a hanner rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (yr anfonir yr hysbysiadau atynt) mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.43 Ni chafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn eu hategu gan y rhesymeg dros y safbwynt a fabwysiadwyd.

4.44 Roedd Openreach, y prif ddarparwr band eang gwifren sefydlog yng Nghymru, o'r farn ei bod yn werth cadw'r gofyniad am hysbysiad i

barhau â'r ddeialog barhaus gydag ACLlau sy'n gallu dwyn budd cadarnhaol i gymunedau.

- 4.45 O'r rhai sydd yn erbyn cadw'r gofyniad am hysbysiad, fe wnaeth rhai'r sylw bod yr amodau sy'n ymwneud ag ymddangosiad y seilwaith yn ddigonol i sicrhau y bydd unrhyw effaith mor fach â phosibl.

Ymateb Llywodraeth Cymru


4.46 Mae rhaniad clir yn bodoli ynghylch mater cadw'r gofyniad am hysbysiad. Fodd bynnag, ystyrir, fel y mae ymateb Openreach yn ei ddangos, bod y broses yn dal i fod yn fodd defnyddiol i gychwyn deialog gydag ACLlau ynghylch datblygu seilwaith band eang gwifren sefydlog heb achosi oedi cyn cyflwyno band eang cyflym iawn yng Nghymru.

4.47 Ni fynegodd Openreach unrhyw wrthwynebiad i gadw'r broses ond fe gynigiodd y gallai'r cyfnod hysbysu gael ei leihau. 1 mis yw'r cyfnod hysbysu ar hyn o bryd, sy'n briodol ym marn Llywodraeth Cymru i sicrhau digon o amser ar gyfer deialog gyda'r ACLlau lle y bo angen.

Annommestig

C.48

A ydych yn cytuno â'r egwyddor o sefydlu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer Solar Ffotofoltäig a Thermal heb gymhwyso trothwy ynni penodol?



- 4.48 Cafwyd 37 o ymatebion i gwestiwn 48. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, 86%, yn cefnogi'r cynnig i gael gwared ar drothwyon allbwn ynni ac nid oedd 5% yn ei gefnogi.

- 4.49 Fe ymatebodd pymtheg o Awdurdodau Cynllunio Lleol (mae hyn yn cynnwys yr ymateb ar y cyd gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru), yr oeddent i gyd yn cytuno â'r newid. Roedd sefydliadau eraill a oedd yn cytuno â hyn yn cynnwys y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, RSPB, ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. Nid oedd CADW a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno.
- 4.50 Mynegwyd pryder ynghylch effeithiau gweledol cynigion. Mewn ardaloedd dynodedig y farn oedd y byddai cynigion, y gallai rhai ohonynt fod ar raddfa fawr, yn niweidiol i warchod a gwella harddwch naturiol tirwedd. Roedd ymatebydd arall o'r farn bod angen i luosogi cyfarpar a'i effaith gael eu hystyried mewn perthynas â'r strydlyn, a bod angen cyhoeddi canllawiau cynllunio i helpu penderfynwyr ac ymgeiswyr.
- 4.51 Mewn perthynas â Safleoedd Treftadaeth y Byd, dadleuwyd fod eu lleoliadau hanfodol, neu glustogfeydd, wedi cael eu hepgor o ardaloedd a fydd yn cael eu diogelu rhag datblygu ynni solar annomestig, ac y dylid eu hychwanegu at y cyfyngiadau a nodir yn adran 3.134(e) o'r papur ymgynghori. Heb eu diogelu, gallai effaith sylweddol ar Werthoedd Cyffredinol Eithriadol safle ddigwydd. Dylid cymhwyso cyfyngiad o 0.5km i gydymffurfio ag Atodlen 4, paragraff (I) (ii)(a) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 sy'n datgan bod rhaid ymgynghori â CADW ynghylch datblygiad o fewn 0.5km i heneb gofrestredig. Hefyd, roedd y bwriad i beidio â chynnwys cyfyngiadau ar adeiladau rhestredig (fel a nodir ym mharagraff 3.142 o'r papur ymgynghori) yn achosi pryder i rai ymatebwyr hefyd. Byddai angen caniatâd bob amser ar gyfer gosodiadau o'r fath. Dadleuwyd y byddai cyfyngiadau clir yn osgoi dryswch ynglŷn â'r angen am ganiatâd neu beidio.
- 4.52 Mynegodd y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) bryderon ynghylch y derminoleg a'r diffiniadau a ddefnyddir, megis ystyr 'diogelwch trafnidiaeth' a'r diffiniad o faes awyr, ac fe ofynnodd pam fod ardal dan waharddiad o 1km o amgylch meysydd awyr gweithredol wedi'i ddewis ac o ble y caiff yr ardal ei mesur. Teimlai yr MOD y dylai gwaharddiadau gael eu hehangu ac fe wnaethon dynnu sylw at effeithiau posibl o ddatblygiadau ynni'r haul ar weithredu gosodiadau diogelu yn effeithiol.


Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.53 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i gael gwared ar drothwy allbwn ynni ar gyfer datblygu solar ar adeiladau annomestig.
- 4.54 Ar hyn o bryd mae adeiladau annomestig yn perthyn i'r categori microgynhyrchu, sy'n caniatáu cynhyrchu symiau cymharol fach o ynni a gwres (45kw a 50kw yn y drefn honno) heb ganiatâd cynllunio. Er bod y terfynau hyn yn dal i fod yn briodol ar gyfer adeiladau domestig nid ydynt yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion busnesau ag adeiladau mwy sy'n dymuno manteisio ar allu ynni adnewyddadwy i dyfu yn unol â'r anghenion. Mae'r cynigion yn

cael gwared ar y trothwy allbwn a'r gofyniad am ganiatâd cynllunio ac yn cymhwyso cyfyngiadau ac amodau.

- 4.55 Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, mynegwyd pryder nad yw cyfyngiadau yn yr ymgynghoriad (a) i (f) yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu safleoedd sensitif. Fe wnaeth yr ymgynghoriad hepgor adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, a oedd wedi'u cynnwys yn y cyfyngiadau yn flaenorol. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r cyfyngiadau presennol (a) i (g) a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012 Rhan 43 Gosod Offer Microgynhyrchu Annomestig – gan gynnwys lle mae paneli solar wedi'u gosod ar adeilad o fewn cwrtill adeilad rhestredig, a lle maent wedi'u gosod ar safle a ddynodwyd yn heneb gofrestrredig. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnwys cyfyngiad pellach ar gyfer datblygiadau solar o fewn 3km i faes awyr neu faes glanio (gweler isod).
- 4.56 Yn ychwanegol at y cyfyngiadau a ddisgrifir uchod, mae cyfundrefn gydsynio'n berthnasol ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Mewn perthynas ag adeiladau rhestredig, bydd yn ofynnol cyflwyno cais am ganiatâd adeilad rhestredig (LBC) i Awdurdodau Cynllunio Lleol cyn bod datblygiad yn dechrau. Yn yr un modd, mae'n ofyniad cyfreithiol cael caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru cyn gwneud y rhan fwyaf o fathau o waith ar heneb gofrestrredig. Ceir Caniatâd Heneb Gofrestredig (SMC) gan CADW. Nid yw cyfundrefnau cydsynio'n cael eu dyblygu yn y Gorchymyn Diwygio drafft, nac unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â safleoedd Treftadaeth y Byd a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016.
- 4.57 Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o ran diogelu eu hystâd, mae cyfyngiad arfaethedig A1 (f) oedd yn cynnig parth 1km o amgylch maes awyr neu glanio gweithredol yn cael ei ymestyn i 3km, Nid yw datblygiad a ganiateir yn bodoli yn y parth yma. Er bod y newid hwn yn cyfyngu hawliau datblygu a ganiateir ger meysydd awyr, mae'n golygu gellir asesu datblygiadau ynni solar ar doeau annomestig yn llawn drwy'r system gynllunio. Tu allan i'r parthau hyn nid oes cyfyngiad ar ynni solar ar doeau annomestig, o fewn amodau. Mesurir y parth o berimedr y maes awyr neu faes glanio.
- 4.58 O fewn y parth gall y gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid priodol ystyried unrhyw angen i ystyried asesiadau o olau tanbaid. Y tu allan i'r ardal 3km cynigir dan amod A.2 (b) (offer solar ffotofoltäig neu solar thermol ar adeiladau) a B.2 (offer solar ffotofoltäig neu solar thermol annibynnol) i gymhell datblygwyr i ystyried effaith golau tanbaid ar amwynder hefyd.

C.49 A ydych yn cytuno bod y 'datblygu nas caniateir' a restrir, (a) i (f), yn ddigonol i reoli effeithiau posibl datblygu a ganiateir o ran solar ffotofoltäig a solar thermal?



- 4.59 Roedd 32 o ymatebion i gwestiwn 49. Roedd saith ar hugain (84%) o'r rhain yn cytuno bod y rhestr o amgylchiadau lle na chaniateir datblygu solar yn ddigonol. Nid oedd tri ymatebydd (9%) yn cytuno.
- 4.60 Fe ymatebodd pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol ar ddeg, yr oeddent i gyd yn cefnogi'r rhestr (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn cefnogi'r rhestr yn cynnwys Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Nid oedd yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol a Chymdeithas Eryri yn cefnogi'r rhestr.
- 4.61 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r rhestr yn pryderu nad yw'n ystyried effaith cynnydd ar nifer y paneli solar ar dir erthygl 1(5) nad yw'n ffinio â phriffordd gyhoeddus. Y farn oedd y gallai datblygu o'r fath gael effeithiau ledled ardal ehangach, er enghraifft defnyddwyr hamdden hawliau tramwy cyhoeddus. Cafodd lleoliadau megis camlesi, sy'n gysylltiedig er enghraifft â Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu henwi fel ardaloedd nad oeddent yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ddigonol.
- 4.62 Mynegwyd barn y byddai caniatâd cynllunio'n caniatáu i gynigion mewn ardaloedd sensitif gael eu cymryd i ystyriaeth yn briodol, er enghraifft penderfyniadau sy'n ategu dibenion y Parciau Cenedlaethol. Gallai cael gwared ar yr angen am ganiatâd arwain at luosogiad datblygu mewn lleoliadau anaddas, neu arwain at godi adeiladau dim ond er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- 4.63 Nododd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd fod nifer o gamlesi yng Nghymru'n gysylltiedig â Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau pwysig eraill. Fe awgrymon nhw fod angen i effaith lleoli hawliau datblygu a ganiateir ar gamlesi sy'n hygyrch i'r cyhoedd gael ei hystyried

am fod y meini prawf lleoli yn (e) yn gyfyngedig i ddatblygu sy'n ffinio â phriffordd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

4.64 Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig a oedd wedi'i nodi yng nghwestiwn 49.


Serch hynny, mynegwyd pryder ynghylch yr effaith weledol bosibl mewn ardaloedd sensitif. Yn dilyn sylwadau ymatebwyr ar gwestiwn 48, ynglŷn â'r lefel o ddiogelu a gynigir gan y cyfyngiadau A.1 (a) i (f) a restrir yn y papur ymgynghori, cynigir newidiadau i gadw cyfyngiadau presennol (a) i (g) a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012 Rhan 43 Gosod Offer Microgynhyrchu Annomestig, sy'n cynnwys diogelu adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig (gweler cwestiwn 48 uchod am fanylion). Cynigir un cyfyngiad pellach (a ddisgrifir yn 4.59 uchod), sef cyflwyno parth o 3km o amgylch maes awyr neu awyrenfa yn lle y 1 km y cynigiwyd yn wreiddiol. . Ystyrir bod cyfyngiadau A.1 arfaethedig a ddisgrifir uchod yn rhoi digon o amddiffyniad lle mae'n ofynnol.

4.65 Mewn perthynas â phryderon y gallai cynigion arwain at godi adeiladau newydd yn benodol ar gyfer datblygu ynni solar, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu ystyried materion o'r fath wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae polisïau cynllunio cenedlaethol yn nodi'r amgylchiadau pan fo adeilad newydd yn briodol yng nghefn gwlad ac mewn ardaloedd sensitif, a gymhwysir trwy Gynlluniau Datblygu Lleol a rheoli datblygu. Mae adeiladau amaethyddol yn ddarostyngedig i derfynau ar ardaloedd llawr ac mae hysbysu rhag blaen yn golygu y gellir craffu ar leoliad a dyluniad. Mewn ardaloedd arbennig o sensitif, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio cyfarwyddiadau erthygl 4 sy'n dileu hawliau datblygu a ganiateir i reoli datblygu ymhellach, er enghraifft lle gallai lluosogiad adeiladau fferm effeithio ar gymeriad y dirwedd.

4.66 Caiff cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar unedau amaethyddol ei nodi fel math priodol o arallgyfeirio amaethyddol, y mae ei egwyddor yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10. Gall arallgyfeirio sy'n ymgorffori cynlluniau ynni adnewyddadwy gynyddu hyfywedd mentrau gwledig a dylid ei gefnogi lle nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd ac amwynder lleol.

C.50

A ydych yn cytuno bod yr amodau presennol yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau posibl datblygu a ganiateir o ran solar ffotofoltäig neu solar thermal?



4.67 Cafwyd 31 o ymatebion i gwestiwn 50. Roedd chwech ar hugain (84%) yn cytuno bod yr amodau presennol yn ddigonol tra bod tri (10%) yn anghytuno.

4.68 Roedd pob un o'r pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol ar ddeg a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (gan gynnwys yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yn cytuno bod yr amodau'n ddigonol. Roedd eraill a oedd yn cytuno'n cynnwys Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Roedd dau o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r amodau'n cynnwys yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol a'r Sefydliad Peirianeg Sifil.

4.69 Mynegwyd pryder nad yw'r amodau'n ystyried effaith cynnydd yn nifer y paneli solar ar dir erthygl 1(5). Byddai caniatâd cynllunio'n ei gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn i hyn gan sicrhau bod penderfyniadau'n cymryd dibenion y Parciau Cenedlaethol i ystyriaeth. Byddai dileu'r angen am ganiatâd yn gallu arwain at luosogiad paneli solar mewn lleoliadau anaddas.

4.70 Roedd sylw pellach yn datgan na ddylai datblygiad solar fod wedi'i leoli lle gallai achosi golau tanbaid i yrwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru


4.71 Bydd yr amodau a ddisgrifir yn Nosbarth A2 o Ran 43 Gosod Offer Microgynhyrchu Annomestig yn cael eu cadw fel y maent i raddau helaeth heblaw am A.2(b), a fydd yn cynnwys cyfeiriad at olau tanbaid ac A.2(c) y bydd y term 'microgynhyrchu' yn cael ei

hepgor ohono.

4.72 Mewn perthynas ag A.2(b), cynigir bod datblygwyr, wrth asesu'r effaith ar amwynder, hefyd yn ystyried effeithiau posibl golau tanbaidd (adlewyrchiad golau'r haul) o baneli solar a thermol. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig pan fo datblygiadau'n fach mae'r effeithiau'n debygol o fod yn finimol; fodd bynnag, os yw datblygiadau'n fawr gall fod mwy o botensial i olau tanbaidd effeithio ar amwynder.

4.73 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amodau hyn yn darparu terfynau digonol i leihau i'r eithaf effeithiau niweidiol cynllunio.

C.51 A ydych yn cytuno na ddylid newid maint datblygiadau paneli solar ar y ddaear (ac felly eu hallbwn ynni) o fewn cwrttil adeilad annomestig?



4.74 Roedd 29 o ymatebion i gwestiwn 51. Roedd chwech ar hugain (90%) yn cefnogi'r cynnig i beidio â newid y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer araeau solar ar y ddaear o fewn cwrttil adeilad. Nid oedd tri (10%) yn cefnogi'r cynnig.

4.75 Roedd pob un o'r 15 ACLI a ymatebodd yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newid i araeau solar ar y ddaear o fewn cwrttil adeilad annomestig. Roedd dau o'r rhai a oedd yn anghytuno'n cynnwys y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol.


4.76 Y prif bryderon oedd na ddylai fod hawliau datblygu a ganiateir ar dir erthygl 1(5) oherwydd eu heffaith weledol bosibl, tra bo barn groes wedi cael ei chyflwyno a oedd yn awgrymu y dylid caniatáu datblygu hyd at ymylon cwrttil adeilad annomestig, i gynyddu i'r eithaf y defnydd o dir.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.77 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i gwestiwn 51.
- 4.78 Ystyrir bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau diogelu digonol, trwy gyfyngiadau ac amodau presennol yn Nosbarth B1 a B2 (paneli solar ffotofoltäig a phaneli solar thermal annibynnol), i sicrhau bod datblygiadau ar dir erthygl 1(5) neu mewn ardaloedd sensitif eraill yn cael eu hystyried yn briodol.
- 4.79 Mewn perthynas â'r sylwadau yn yr ymgynghoriad ynghylch cynyddu i'r eithaf ddatblygiad paneli solar ar y ddaear o fewn cwrtil adeilad annomestig, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai datblygiad o'r fath greu problemau, neu achosi effeithiau, sy'n debyg i'r rhai a gyflwynir gan araeau solar ar raddfa fawr ar y ddaear (y tu allan i gwrtil adeilad) y mae'n ofynnol yn briodol cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Daeth yr ymchwil i'r casgliad y byddai angen cynyddu'n sylweddol faint datblygiadau paneli solar ar y ddaear o fewn cwrtil adeilad annomestig sy'n elwa ar hawliau datblygu a ganiateir, er mwyn gwella'r capasiti ynni mewn modd ystyrlon.
- 4.80 Ni chynigir unrhyw newid i faint paneli solar annomestig ar y ddaear a ganiateir o fewn cwrtil adeilad.

C.52

A ydych yn cytuno bod y 'datblygu nas caniateir', (a) i (c), yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau posibl datblygiadau paneli solar ffotofoltäig neu baneli solar thermal ar y ddaear o fewn cwrtil adeilad annomestig?



- 4.81 Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 52. Roedd pump ar hugain (86%) yn cefnogi'r cwestiwn hwn, tra bod 2 (14%) yn peidio â'i gefnogi.


- 4.82 Fe ymatebodd pymtheg o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Roedd 14 yn cytuno (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru) ac nid oedd 1 yn cytuno nac yn anghytuno. Nid oedd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad na'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol yn cytuno.
- 4.83 Mynegwyd pryder y gallai'r amod sy'n atal datblygiadau solar ar y ddaear rhag bod yn weladwy (ffinio â phriffordd) achosi i araeau ar y ddaear gael eu cuddio y tu ôl i glawdd neu ffens i ddechrau ac y gallai'r rhwystr hwnnw gael ei dynnu i ffwrdd yn ddiweddarach. Mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd dylai datblygiad fod 20 metr neu fwy i ffwrdd oddi wrth briffordd.
- 4.84 Gwnaed sylwadau pellach bod y cynnig yn gyfyngol ac y bydd yn atal datblygu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.85 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r datganiad a wnaed yng ngwestiwn 52.
- 4.86 Fodd bynnag, yn dilyn sylwadau ymatebwyr ynglŷn â chwestiwn 48 a oedd yn mynegi pryder ynghylch y lefel o ddiogelu a gynigir mewn perthynas â gosod, addasu neu ddisodli offer solar ffotofoltäig a solar thermol ar adeiladau yn Nosbarth A1, cynigir newidiadau hefyd sy'n cadw cyfyngiadau presennol a nodir yn Nosbarth B1 (a) i (c) mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Hefyd, cynigir cyfyngiad pellach sy'n effeithio ar offer solar annibynnol a fyddai'n cael ei osod o fewn 3km i faes awyr neu faes glanio.
- 4.87 Gyda'r newidiadau arfaethedig ystyrir y bydd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau diogelu priodol i gefnogi datblygu a ganiateir ar gyfer paneli solar ar y ddaear o fewn cwrtil adeilad annomestig, gan gynnwys mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd sensitif.

C.53

A ydych yn cytuno nad oes angen unrhyw newid i'r amodau ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltäig neu thermal annomestig ar y ddaear?




- 4.88 Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 53. Roedd chwech ar hugain (87%) yn cefnogi'r cynnig ac nid oedd 2 (7%) yn ei gefnogi.
- 4.89 Fe ymatebodd pymtheg o ACLlau i'r cwestiwn hwn. Roedd 14 yn cytuno â'r cynnig (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru), ac nid oedd un yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd eraill a oedd yn cytuno'n cynnwys y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. Nid oedd yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol yn cytuno.
- 4.90 Mynegwyd pryder bod yr ymadrodd "cyn belled ag sy'n ymarferol, er mwyn lleihau'r effaith ar ymddangosiad allanol yr adeilad/amwynder yr ardal" yn oddrychol a gofynnwyd sut y mae hyn yn gymwys yn ymarferol.
- 4.91 Mae angen canllawiau i egluro sut y dylid dehongli'r amodau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.92 Mae'r mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r datganiad a wnaed yng nghwestiwn 53.
- 4.93 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amodau a nodir yn Nosbarth B2 (a) a (b) yn rhoi cefnogaeth briodol i ddatblygu a ganiateir ar gyfer datblygu paneli solar ar y ddaear yng nghwrttil adeiladau annomestig. Fodd bynnag, bydd paragraff (a) yn cael ei gryfhau fel bod offer solar ar y ddaear wedi'i leoli mewn modd sy'n lleihau effaith unrhyw olau tanbaid a fflach i'r eithaf.
- 4.94 Bydd paragraff (b) yn cael ei newid i hepgor y cyfeiriad at "ficrogynhyrchu".
- 4.95 Mae'r amodau'n cael eu cadw heb eu haddasu o'r Rhan 43 gyfredol.

C.54

A ydych yn cytuno â'n hymagwedd o beidio â chynnwys cyfyngiadau ar ddatblygiadau solar ffotofoltäig neu solar thermal ar adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig neu ardaloedd tirlun eraill? Os nad ydych, pa gyfyngiadau yr hoffech eu gweld a fyddai'n dal i wneud y mwyaf o'r cyfleodd i ddefnyddio'r dechnoleg ar yr adeiladau / safleoedd hyn?



- 4.96 Cafwyd 28 o ymatebion i gwestiwn 54. Roedd un ar bymtheg (57%) yn cefnogi'r cynnig, tra bo 9 (32%) yn peidio â'i gefnogi.
- 4.97 Cwestiwn 54 oedd yr un a esgorodd ar y mwyaf o sylwadau o'i gymharu â'r cwestiynau eraill am ddatblygiadau solar annomestig. Fe ymatebodd pedwar ar ddeg o Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr oedd 8 ohonynt yn cytuno, 4 yn anghytuno a 2 ddim yn cytuno nad yn anghytuno. Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn cytuno yn cynnwys y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, 4 o'r Cynghorau Tref a Chymuned, ac Un Llais Cymru. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n cynnwys yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, Cymdeithas Eryri, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Sefydliad y Peirianwyr Sifil.
- 4.98 Barn y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn oedd y gallai peidio â chynnwys cyfyngiadau ar offer solar ar y ddaear mewn perthynas ag Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig a thir dynodedig arall arwain at effaith weledol sylweddol. Mewn perthynas ag adeiladau a warchodir dylai cyfyngiadau fod yn gymwys fel bod cynigion yn gallu cael eu hasesu, megis bod wedi'u lleoli o fewn y cwrtil, a natur amlwg o fannau agored yn enwedig mewn ardaloedd dynodedig.
- 4.99 Roedd rhai sylwadau'n dynodi y byddai caniatâd cynllunio llawn yn sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n briodol. Roedd effaith cynnig ar gymeriad a chynllun yn ystyriaeth bwysig.
- 4.100 Tybiodd nifer o ymatebwyr fod y cwestiwn hwn yn cyfeirio at 'gyfyngiadau pellach' yn hytrach na dim cyfyngiadau, ac fe awgrymon

nhw y dylai'r testun fod wedi cael ei rannu'n ddau. Dylai'r rhan gyntaf fod wedi cyfeirio at Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig, ac ymdrin â'u lleoli a'u dyluniad ac ystyried hysbysu rhag blaen fel gofyniad lleiaf i ganiatáu ymgynghori. Dylai'r ail ran fod wedi ystyried dynodiadau tirwedd, eu diffiniad, a datblygiad meini prawf i'w defnyddio i asesu effeithiau ar gymeriad, cyfanrwydd neu effaith weledol. Eto, dylai hysbysiad rhag blaen fod yn ofynnol.

- 4.101 Mewn perthynas ag Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig, pwysleisiwyd y bydd wastad yn ofynnol cael caniatâd gan y cyrff perthnasol pa un a yw hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu cymhwysu ai peidio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 4.102 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai cael gwared ar gyfyngiadau ac amodau ar ddatblygu offer solar annibynnol o fewn cwrtil adeilad annomestig arwain at effeithiau gweledol dieisiau. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r gofynion presennol (Rhan 43 – Gosod Offer Microgynhyrchu Annomestig, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) 2012) fel a nodir yn Nosbarth B 'offer solar annibynnol' a chryfhau'r rhain fel a ddisgrifir uchod yng nghwestiynau 52 a 53.
- 4.103 Ni waeth pa gyfyngiadau ac amodau a restrir yn Rhan 43 Dosbarth B, nodir y bydd Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Heneb Gofrestredig wastad yn ofynnol lle cynigir newid i'r naill neu'r llall.